# Digwyddiad Cymunedol Arddangosfa mewn Blwch

Gweithiodd dros 300 o aelodau'r gymuned gydag artistiaid proffesiynol i gyfrannu at y casgliad myfyriol hwn o gelfweithiau a ysbrydolwyd gan Arddangosfa mewn Blwch - adnodd aml-synhwyraidd yn ymchwilio tawelwch yng nghyswllt y Rhyfel Byd Cyntaf.



Cafodd Arddangosfa mewn Blwch ei greu gan Celf ar y Blaen mewn partneriaeth gydag Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Archifdy Morgannwg, Archifdy Gwent, Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Tŷ Windio. Cafodd y prosiect ei gefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND

I weld y Pecyn Addysg ewch i www.inspiredbyhistory.cymru/

---

# Saethu ar Doriad Gwawr

# Theatr AdHoc

Dan gyfarwyddyd y gwneuthurydd theatr Andrew Pippen, mae Theatr AdHoc wedi creu'r ffilm fer hon ar ôl cymryd rhan mewn gweithdy ar ddistawrwydd 'Saethu ar Doriad Gwawr'.

https://vimeo.com/326580036

Mae'n canolbwyntio ar y 15 dyn o Gymru a gafodd eu saethu ac yn dangos effaith y gweithredu hyn o lawer o wahanol safbwyntiau, yn cynnwys y bobl yr oedd yn rhaid iddynt danio'r gynnau, y teuluoedd a adawyd ar ôl, y rhagfarn o fewn cymunedau a daw i ben gyda rhoi'r gweithredoedd a arweiniodd at y saethu mewn cyd-destun arall, drwy edrych arnynt o safbwynt y 21ain ganrif a gwybodaeth o PTSD

---

# Ysgrifennu Creadigo

# Ysgol Panteg & U3A Glynebwy - grŵp ysgrifennu

Bu disgyblion o Ysgol Panteg yn gweithio gyda'r storïwr Tamar Williams i ymchwilio cynnwys y blychau a thrafod y gwahanol fathau o ddistawrwydd yn gysylltiedig gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf.


Dear Mary,

I have just received a letter from the military. James was shot at dawn last Friday. They said he had deserted but I don't believe that. There was no communication between us for the past weeks. I thought the mail was late. I know he is in France or should I say was. But cowardice or desertion...never, it wasn't in his nature. They have taken away his money and I'm at my wits end of how I can live with no income. Please, please can I come and live with you. Two women in the house, one can go out to work and the other look after the children. I know its early but to be this practical but it's the only way I know how to cope.

Your loving sis

Elsie

Cafodd disgyblion eu hannog i gamu i esgidiau cymeriadau oedd yn gysylltiedig gyda'r gwrthrychau.



U3A Writers Group

I felt this box belonged to a wife or sweetheart. In it she would keep all communications/ mementos from her loved one.

I am totally wrong.

This box contact reminders of the decimation of war on the landscape.

The most significant piece in the box - the parcel containing charred pieces of tree. The charred smell filling your nostrils.

This box is the silence of nature

Fe wnaeth rhai greu llythyrau yn ymwneud â'r gwrthrychau a defnyddiodd eraill gyfeiriadau o'r 21ain ganrif i ddangos cydymdeimlad gyda milwyr a dychmygu sut y gellid trosi eu profiadau yn y dydd heddiw - megis disgrifio colli eu hoff fwyd - pizza!



My dearest Johnny

I haven't heard from you for so long, but I am not worried. If you were injured I would have had a letter from your commanding officer. So I must bear the silence and send you good news to cheer you up.

I had a new coat last week it was in a sale. Mother bought it and granny. They said now I am a suffragette I must look smart. It is dark purple velvet. Uncle Fred paid for my women's brooch. It is very precious to me and I want you to have it. I have prayed over it to keep you safe so that very soon you will come back to me. Look after it.

Take care of yourself and don't take risks.
Make sure to eat well
All my love
Your Hetty x

Defnyddiodd aelodau grŵp U3A Glynebwy Arddangosfa mewn Blwch fel ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith ysgrifenedig, gan seilio eu hymatebion ar y gwahanol fathau o ddistawrwydd y buont yn eu hymchwilio.



Noise - Silence
Pressure- explosion
Deaf - less - lose hearing
Guns - fire
Pain - less - heartbreak
Death
Grave - Honour - propaganda
Dying
Son - brother - husband - father
Letter - grief
Graves - tombs
Memorials - memory - ceremonies
Wife - sister - daughter
Meaningless - want -black
Silence
Death
Life - lifeless
Happen - hapless
Hope - hopeless
Broken - bent
Horses -pigeons
Trees - mud - trenches
Smoke - flash - unconscious
Nightmare
Hell - heaven
Now

# Arddangosfeydd Bach mewn Blychau

# Grŵp Hyb Canol Cymoedd Gorllewinol Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili

Gan weithio wrth ochr tîm o artistiaid, bu pobl ifanc o'r Hanger yn Aberbargoed yn ail-greu eu fersiynau eu hunain o "Arddangosfa mewn Blwch".



Cawsant eu hysbrydoli gan wrthrychau a gynhwysir mewn nifer o flychau i ddatblygu eu gwaith.



Bu'r grŵp yn ymchwilio technegau decoupage a monoprint gyda'r artist Rhian Anderson i addurno a gwneud i'r blychau edrych yn hen. Buont yn gweithio gyda Chris Walters i wneud copïau o geiniogau marwolaeth allan o glai, yn cynrychioli distawrwydd galar.



Bu'r artist tecstilau Penny Turnbull yn helpu'r grŵp i wneud clustogau pinnau cariad yn cysylltu gyda distawrwydd menywod a chyflwynodd yr artist digidol Natasha James y grŵp i wahanol dechnegau ffotograffiaeth, gan ymchwilio'r defnydd o ffotograffiaeth stiwdio a llurgunio delweddau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

---

## Blychau Matshys

# Grŵp Rhyngweithio Coed Cae, Ysgol Gynradd Sofrydd, Ysgol Gynradd Rhosyn Gwyn, $2^{il}$ Gybiaid Merthyr, Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys llawer o ymatebion unigol i'r mathau o ddistawrwydd a gynrychiolir yn Arddangosfa mewn Blwch, gyda phob person yn dewis siâp neu wrthrych i'w ail-greu. Gwnaed pob un yn yr un ffordd unffurf, plastig gwyn o fewn blwch matshys gwyn, ond mae pob gwrthrych yn dal i fod ag argraff y person a'i creodd - hyd yn oed os mai dim ond ôl bys yw hynny.



Dim ond yn agos y gellir gweld yr argraff bersonol yma. Mae hyn i adlewyrchu'r llu o feddau milwrol gwyn yn ymestyn am filltiroedd mewn lleoedd fel Ypres. Ar y golwg cyntaf dim ond miloedd o gerrig bedd gwyn a welir a dim ond pan archwilir yn agosach y byddwch yn gweld manylion y person.

---

## Celf Blwch - Haenau o'r Wyneb Dynol

## Adran Gelf Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre

Roedd disgyblion Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre yn hoff iawn o'r ffordd y mae pob blwch yn dweud stori bersonol a chawsant eu hysbrydoli gan y defnydd o'r blychau fel dulliau dysgu.



Gwnaethant flychau sy'n ymchwilio haenau o'r wyneb dynol, gan edrych ar ffyrdd credigol i gyflwyno gwybodaeth addysgol.

# Clustogau pinnau cariad

# Grŵp Artspark Caerffili

Cafodd y clustogau pinnau siâp calon lliwgar hyn eu creu gan grŵp Artspark Caerffili, gan weithio gyda'r artist tecstilau Penny Turnbull.



Cawsant eu gwneud mewn ymateb i'r blwch yn seiliedig ar ddistawrwydd menywod yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y blwch yma oedd copi o glustog pinnau cariad, ynghyd â broetsh Swffraget, broetsh cariad a gwniadur.



Roedd clustog pinnau Cariad gwreiddiol o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn llawer mwy, tua 15-20 modfedd. Byddai wedi cael ei wneud gan filwr wedi anafu fel rhan o therapi adfer, a'i anfon at ei gariad Canolbwyntiodd Artspark ar y copi o'r clustog pinnau cariad i wneud eu fersiynau eu hunain, yn ymchwilio lliwiau llachar a gweadau cyfoethog.

# Ysgrifennu Creadigol a Sain

# Yr Hwb, Blaenafon a Chlwb Ieuenctid Willows, Troedyrhiw

Cafodd y cerddi hyn eu wneud gyda Rufus Mufasa, bardd celf perfformiad. Bu'r ddau grŵp yn ymchwilio a thrafod y gwahanol fathau o ddistawrwydd o'r Rhyfel Byd Cyntaf a bortreadir mewn Arddangosfa mewn Blwch. Fe wnaeth Rufus gyfleu eu geiriau fel yr oeddent yn cysylltu â'r gwahanol fathau o ddistawrwydd yn eu bywydau eu hunain.

https://vimeo.com/331001462

https://vimeo.com/331219893

Mae'r canlyniad yn gymysgedd gyfoethog o erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf nid i bobl yn unig ond hefyd i anifeiliaid ac ymchwiliad o'r hyn a olygai rhyfel yn 1914-1918 o gymharu gyda rhyfeloedd a gaiff eu hymladd nawr ar raddfa fyd-eang a phersonol.

---

# Bwrdd Apothecari

# Ysgol Gynradd Sofrydd

Bu disgyblion blwyddyn 5/6 o Ysgol Gynradd Sofrydd yn gweithio gyda'r artist Megan Lloyd i ymchwilio distawrwydd milwyr o ddiwylliannau a gwledydd eraill.



Cafodd y dosbarth eu hysbrydoli gan bwnc cyfoes India i ymchwilio profiadau milwyr o India yn y Rhyfel Byd Cyntaf, gan ddarganfod i dros 1 miliwn o filwyr o India ymladd dramor rhwng 1914-1918.



Cymerodd disgyblion ran mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol i ddysgu am y gwahaniaethau diwylliannol rhwng milwr o Gymru a milwr o india ar faes y gad yn y Rhyfel Byd Cyntaf.



Fe wnaethant lampau deepa mewn clai i bortreadu cofio ac ysgrifennu llythyrau yn dychmygu'r hyn y gallai milwyr o wahanol ddiwylliannau eu hysgrifennu at eu hanwyliaid. Ymchwiliodd y disgyblion decstilau, patrymau a chynlluniau o India a'u cyfuno gyda symbolau o Gymru i greu baneri batik. Rhoddodd y disgyblion gynnig ar ddawns o India i ddysgu am seremonïau traddodiadol a chawsant lawer o hwyl yn gwisgo dillad o'r ddwy wlad.

---

# Croglun

# Aelodau o Eglwys Dewi Sant, Merthyr Tudful a mynychwyr sesiynau teulu agored yn y Pwll Mawr ac Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa

Cafodd y croglun hwn ei greu gan nifer a gymerodd ran mewn gweithdai oriel a sesiynau teulu agored, lle gwnaethant ddarlunio gwrthrych oedd yn eu denu fel rhan o ymchwilio gwahanol fathau o ddistawrwydd y Rhyfel Byd Gyntaf.



Gyda help yr artist tecstilau Amy Mackenzie-Mason, cafodd y darlun wedyn ei ddatblygu i ffurf print, gan gysylltu pob ymateb print i greu darn ar y cyd.

---

## Geiriau gwifren

## Grŵp Rhyngweithio Coed Cae, U3A Glynebwy, Ysgol Gynradd Sofrydd, Ysgol Uwchradd Penydre, 2il Gybiaid Merthyr

Mae'r gwaith hwn yn crynhoi'r geiriau a ddefnyddiai pobl i ddisgrifio eu profiad o ymchwilio Arddangosfa mewn Blwch.



Fel rhan o broses weithdy yr arddangosfa buont yn ystyried y gwaith, trafod, gwneud nodiadau a dewis y geiriau mwyaf teimladwy i'w hysgrifennu mewn gwifren.

